**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Cabinet Secretary for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At holl Aelodau'r Cynulliad

18 Mehefin 2018

Annwyl Aelod

Rwy'n ysgrifennu ynghylch y cynlluniau i ddeuoli'r A40 yn Sir Benfro, wedi i'r mater gael ei godi yn y Senedd ar 6 Mehefin.

Edrychwyd ar yr achos dros ddeuoli'r A40 yn astudiaeth 2015, oedd yn ystyried yr effaith economaidd ehangach i'r rhanbarth o ddeuoli'r A40 ac oedd yn cynnwys ymgynghoriad â busnesau yn yr ardal. Daeth yr astudiaeth i'r casgliad y gallai gwaith o ddeuoli'r A40 arwain at fanteision yn y tymor hir.

Gwelodd yr astudiaeth hefyd bod achos dros ddod â phecyn o fesurau ar yr A40 yn y tymor byr a chanolig i wella amodau traffig rhwng San Clêr a Hwlffordd. O ganlyniad, rydym yn bwriadu buddsoddi dros £50 miliwn i uwchraddio'r A40 rhwng San Clêr a Hwlffordd i wella diogelwch, amseroedd teithio a dibynadwyedd.

Byddai'r mesurau'n golygu defnyddio'r cynllun 2+1 sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd ar yr A477, ffordd osgoi Robeston Wathen sydd eisoes wedi'i chwblhau, a'r A477 yn Llanddowror. Mae'r gwelliannau'n cael eu datblygu i hwyluso unrhyw waith uwchraddio er mwyn deuoli yn y dyfodol.

Rydym wedi sicrhau £22 miliwn o gyllid yr UE i gefnogi'r broses o ddarparu'r cynllun ar yr A40 o Landdewi Felffre i Benblewin ar gost o £35 miliwn. Cafodd Carillion ei benodi fel Contractwr ECI ym mis Mawrth 2017 ond aeth y cwmni'n fethdalwr ym mis Ionawr 2018. Rydym bellach yn y broses o benodi Arup, dylunydd Carillion, i barhau i ddatblygu'r cynllun. Mae'r dylunio amlinellol a'r asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y cynllun bron â'i gwblhau a bydd yn cael ei ddefnyddio i raddau helaeth wrth ddatblygu'r prosiect. Mae Gorchmynion Drafft i'w cyhoeddi tua diwedd y flwyddyn hon gyda'r gwaith adeiladu i ddechrau oddeutu haf 2019, yn amodol ar y broses statudol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae archwiliadau cychwynnol hefyd wedi dechrau i ddatblygu rhagor o gyfleoedd goddiweddu ar hyd yr A40 gan gynnwys Croesffordd Maencoch, sef safle damwain angheuol ym mis Mawrth. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar pryd y gellid darparu'r rhain ar yr un pryd â blaenoriaethau eraill y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol, a byddwn yn datblygu rhaglen o waith maes o law, er bod disgwyl i'r gwaith ar y safle ddechrau rhwng 2020 a 2023. Mae cyllid yr UE wedi'i glustnodi hefyd ar gyfer y gwelliannau hyn.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport